



Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Pecyn Cymorth **Cam-drin Ariannol**



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Chwefror 2026

Is-grŵp Protocolau a
Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Chwefror 2029

Cynnwys**Tudalen**

1. Cyflwyniad	3
2. Diben	4
3. Beth yw Cam-drin Ariannol?	5
4. Pam mae'n bwysig cydnabod Cam-drin Ariannol?	7
5. Nodi rhywun sydd mewn perygl o Gam-drin Ariannol	8
6. Pwy allai gyflawni Cam-drin Ariannol?	10
7. Nodi Cam-drin Ariannol	11
8. Proses ar gyfer ymateb i Gam-drin Ariannol tybiedig	15
9. Enghreifftiau o arfer da	20
10. Adnoddau	22
 Atodiad Un: Pecyn Cymorth Cam-drin Ariannol: Siart Llif Cymorth i Ymarferwyr	 24

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn disgrifio 'cam-drin ariannol' fel math o gam-drin sy'n cynnwys arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn, cael eich twyllo, cael eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall ac arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio. Gall sut olwg sydd ar gam-drin ariannol amrywio, sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd ei ganfod a'i nodi, sy'n gallu gwneud hwn yn faes ymarfer heriol i ymarferwyr.
- 1.2 Cynhaliodd Is-grŵp Ansawdd Bwrdd Diogelu Gwent archwiliad o achosion o gam-drin ariannol yn 2024. Nodwyd ystod o arfer da, gan gynnwys cymorth a mesurau diogelu amserol a phriodol, cydnabod llais yr oedolyn, a dull amlasiantaeth. Nododd y dysgu y gellid defnyddio'r ddogfen trothwyon oedolion rhanbarthol yn well o ran ategu penderfyniadau ynghylch a oes angen Dyletswydd i Adrodd, a phan fydd aelodau'r teulu ynghlwm, bod hynny'n ychwanegu haen o gymhlethdod y byddai ymarferwyr yn elwa ar gymorth gyda hi.
- 1.3 Yn ogystal â hyn, mae sefydliadau partner amrywiol, fel Age Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, wedi nodi cynnydd mewn achosion o gam-drin ariannol a allai fod wedi'i ddylanwadu ar yr hinsawdd economaidd bresennol a'r argyfwng costau byw.
- 1.4 Felly, cytunwyd y byddai'r rhanbarth yn elwa ar becyn cymorth cam-drin ariannol a allai gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes hwn.

2. Diben

- 2.1 Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod yr angen i ddarparu dull amlasiantaeth cydgysylltiedig o atal, nodi ac ymateb i gam-drin ariannol. Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cynorthwyo ymarferwyr i gynyddu eu dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gam-drin ariannol, yr arwyddion y gallai cam-drin fod yn digwydd, yr effaith y gall ei chael ar unigolion a sut i ymateb lle ceir amheuaeth o gam-drin ariannol.
- 2.2 Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddatblygu ar sail amlasiantaeth gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol, yr heddlu a'r sector arbenigol. Ei fwriad yw cynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol a'u barn broffesiynol a dylid ei ddarllen ar y cyd â pholisïau ac arweiniad eich sefydliad eich hun yn ymwneud â cham-drin ariannol, yn ogystal â'r arweiniad sydd ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, [Diogelu Cymru](#). Er y caiff ei gydnabod na all y pecyn cymorth hwn roi atebion i'r holl amgylchiadau ac anawsterau, ei nod yw cydnabod a chynnig arweiniad yn ymwneud â rhai o'r cymhlethdodau y mae ymarferwyr yn eu hwynebu lle ceir amheuaeth o gam-drin ariannol, er enghraifft, cam-drin gan aelodau'r teulu, deall atwrneiaeth, a materion yn ymwneud â gallu meddyliol. Bydd y pecyn cymorth hefyd yn archwilio sut gall cam-drin ariannol ac economaidd ddigwydd yng nghyd-destun cam-drin domestig fel rhan o batrwm o reolaeth orfodol.
- 2.3 Mae data a gasglwyd gan Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Bwrdd Diogelu Gwent yn dangos bod cam-drin ariannol yng Ngwent yn fwy cyffredin o lawer ymhlith oedolion na phlant, heb unrhyw achosion o gam-drin ariannol wedi'u hysbysu ar gyfer plant yn y flwyddyn 2024/5. Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gam-drin ariannol ymhlith oedolion; fodd bynnag, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc gael profiad o gam-drin ariannol hefyd ac mae adran bwrpasol yn y pecyn cymorth i dynnu sylw at hyn.

3. Beth yw cam-drin ariannol?

3.1 Cam-drin ariannol yw: “Defnydd anawdurdodedig ac amhriodol o arian, eiddo neu adnoddau sy’n perthyn i unigolyn arall” (Adran Iechyd / Y Swyddfa Gartref, 2000). Gall cam-drin ariannol fod ar sawl ffurf a gallai gynnwys pethau fel:

- Benthycu arian a pheidio â'i roi'n ôl.
- Dwyn arian neu eiddo.
- Cymryd taliadau pensiwn neu fudd-dal arall gan rywun.
- Cymryd arian fel taliad am ddod i ymweld neu dreulio amser gyda'ch gilydd.
- Gorfodi rhywun i werthu eu cartref neu asedau heb ganiatâd.
- Twyllo rhywun i wneud buddsoddiadau gwael.
- Rhoi pwysau ar rywun neu orfodi rhywun hyd yn oed i wneud newidiadau i ewyllys, eiddo neu etifeddiaeth.
- Twyll rhamant a sgamiau ar-lein.

3.2 Mae darpariaethau mewn deddfwriaeth sydd i'w gweld yn [Neddf Lladrad 1968](#) a [Deddf Twyll 2006](#) sy'n cwmpasu twyll trwy ymhoniad anwir, twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth a thwyll trwy gamddefnyddio swydd. Mae darpariaeth benodol hefyd yn ymwneud â cham-drin ariannol yn Adran 197 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

3.3 Mae llawer o wahanol fathau o gam-drin ariannol a allai gyfiawnhau'r angen i gyflwyno Dyletswydd i Adrodd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

3.4 Gorfodaeth

- Atal rhywun rhag prynu nwyddau, gwasanaethau neu weithgareddau hamdden.
- Rheoli mynediad at arian neu fudd-daliadau.
- Dylanwadu ar rywun yn ormodol i roi asedau/newid ewyllys/gweithredoedd eiddo.

3.5 Camfanteisio ar sefyllfa o ymddiriedaeth

- Mynnu etifeddiaeth gynnar.
- Pwysau i drosglwyddo eiddo, etifeddiaeth, eiddo neu fudd-daliadau, cymryd benthyciad neu newid ewyllys er budd y teulu / er budd proffesiynol.
- Pwysau i dderbyn gwasanaethau rhatach neu o ansawdd is er mwyn cadw mwy o adnoddau ariannol i'w trosglwyddo i fuddiolwyr ar ôl marw.
- Staff neu wirfoddolwyr yn benthycu arian neu'n derbyn rhoddion neu arian.
- Camddefnyddio atwrneiaeth.
- Gweithwyr proffesiynol yn camddefnyddio asedau unigolyn. Am ragor o wybodaeth am gam-drin gan weithwyr proffesiynol, gweler arweiniad rhanbarthol Gwent yma: [Protocol honiadau a phryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn safle o ymddiriedaeth](#).

3.6 Twyll

- Nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu prynu yn enw rhywun ond heb eu caniatâd.
- Ffugio.
- Newid perchnogaeth eiddo heb ganiatâd.
- Arian yn cael ei ailgyfeirio i bobl ifanc.
- Arian yn cael ei amsugno i gartref gofal neu gyllideb aelwyd heb ganiatâd yr unigolyn.
- Benthycu arian heb ei drwyddedu (benthycwyr arian didrwydded) h.y. cael cynnig benthyciad â thelerau gwael. Mathau eraill o gam-drin ariannol.
- Lladrad h.y. arian neu eiddo'n cael ei ddwyn, ei fenthycu neu ei atal heb ganiatâd.
- Codi tâl gormodol arnoch yn fwriadol ar gyfer nwyddau neu wasanaethau neu ofyn i chi roi arian trwy dwyll.
- Sgamiau drwy'r post, dros y ffôn a dros y rhyngwyd lle mae'r unigolyn wedi rhyngweithio â rhywun ac wedi colli arian.

3.7 Masnachu Pobl/Caethwasiaeth Fodern

- Dal rhywun mewn sefyllfa o gaethwasiaeth, caethwasanaeth neu lafur gorfodol.
- Hwyluso teithio unigolyn gyda'r bwriad o gam-fanteisio arnynt yn fuan wedi hynny.

Am ragor o wybodaeth am fasnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, gweler [Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl - Diogelu Gwent](#)

3.8 Cam-drin Ariannol neu Economaidd yng nghyd-destun Cam-drin Domestig

Gall cam-drin ariannol gynnwys arfer rheolaeth dros oedolyn arall trwy reoli eu gallu i gael, defnyddio a chynnal adnoddau economaidd ac, mewn cyd-destun domestig, cyfeirir ato fel cam-drin economaidd. Cyflwynodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 gam-drin economaidd fel ffurf gyfreithiol gydnabyddedig o gam-drin domestig a dywed ei fod yn cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith negyddol ar allu unigolyn i:

- Gaffael, defnyddio neu gynnal arian
- Cael nwyddau neu wasanaethau
- Cynnal a chadw eiddo

Gall hyn gynnwys rheoli'r gallu i gael hanfodion fel bwyd, dillad, trafnidiaeth neu dai.

Mae hwn yn un o ystod o fathau o ymddygiad rheolaethol y mae'r rhai sy'n gyfrifol am gam-drin domestig yn eu defnyddio ac, yn aml, gall ei gwneud hi'n anoddach i rywun wneud penderfyniad i adael perthynas. Gall y rhai sy'n cyflawni cam-drin economaidd **greu ansefydlogrwydd economaidd yn fwriadol, y gallant gam-fanteisio arno'n ddiweddarach i atgyfnerthu rheolaeth orfodol**, er enghraifft

trwy ddwyn arian eu partneriaid, creu costau a mynd i ddyled. Mae'n broblem sylweddol y mae dioddefwyr/goroeswyr yn ei hwynebu ac mae ymchwil wedi canfod bod **89% o fenywod wedi crybwyll eu bod yn profi cam-drin economaidd yn rhan o gam-drin domestig.**

3.9 Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, gall y mathau hyn o ymddygiad gynnwys:

- Ymyrryd neu atal unigolyn rhag manteisio ar gyflogaeth ac / neu addysg.
- Dinistrio eiddo.
- Atal neu reoli'r gallu i gael cyllid, gan gynnwys budd-daliadau, cynilion neu gyflog.
- Gorfodi oedolyn i gymryd cymryd.
- Gorfodi oedolyn i gyflawni twyll.
- Trosglwyddo atebolrwydd ariannol i enw oedolion.
- Gwrthod cyfrannu at gostau'r cartref neu gostau eraill.
- Ymestyn trafodion cyfreithiol.
- Dwyn.

3.10 Mae cam-drin economaidd yn wahanol i gam-drin ariannol gan ei fod yn cynnwys **rheoli, cam-fanteisio ar, a difrodi'r holl adnoddau economaidd, yn hytrach nag arian a chyllid 'yn unig'**. Mae'n bwysig edrych ar y cam-drin hwn drwy lens ehangach i ddeall, trwy leihau adnoddau economaidd diriaethol, fel y gallu i fanteisio ar drafnidiaeth neu le i aros, fod gan droseddwr ystod ehangach o offer i danseilio gallu dioddefwr/goroeswr i wrthsefyll rheolaeth orfodol.

3.11 Efallai na fydd cam-drin ariannol neu economaidd yn y cyd-destun hwn yn bodloni'r trothwy ar gyfer diogelu o reidrwydd, ac efallai y bydd angen cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth. Os ystyrir bod gan y dioddefwr risg uchel o niwed, efallai y byddai atgyfeiriad i MARAC yn briodol. Fel arall, gellid gwneud cais am gyfarfod adran 115 neu geisio cyngor gan Heddlu Gwent, y Tîm VAWDASV rhanbarthol, llinell gymorth Byw Heb Ofn neu wasanaethau eiriolaeth eraill fel Age Cymru (gweler yr adran adnoddau am ragor o wybodaeth).

4. Pam mae'n bwysig cydnabod Cam-drin Ariannol?

4.1 Mae'n bwysig nad yw effaith cam-drin ariannol yn cael ei bychanu gan y gall fod yr un mor arwyddocaol â mathau eraill o gam-drin. Gall cam-drin ariannol effeithio ar hyder unigolyn a'u gallu i fyw'n annibynnol, a gall arwain at rywun angen manteisio ar wasanaethau cymorth, gan gynnwys ymateb diogelu os yw'n briodol. Er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, gallai cam-drin ariannol effeithio ar unigolyn yn y ffyrdd canlynol:

- Iselder / gorbryder
- Trallod

- Dictter
- Cywilydd / colli hunan-barch
- Rhoi'r bai arnyn nhw'u hunain – dirywiad mewn iechyd meddwl
- Gwadu / ofn
- Bradychiad
- Straen
- Colli'r hyder i fyw'n annibynnol
- Dirywiad mewn iechyd corfforol (gan arwain at farwolaeth gynamserol)
- Ynysigrwydd cymdeithasol
- Yn fwy agored i gam-fanteisio pellach
- Methu rhoi cynilion coll yn ôl oherwydd diffyg potensial i ennill arian
- Drwgdybio gwasanaethau a bod yn anfodlon manteisio ar gymorth (os cafodd ei gyflawni ei weithiwr proffesiynol)

5. Nodi rhywun sydd mewn perygl o Gam-drin Ariannol

5.1 Mae rhai ffactorau a all olygu bod oedolyn yn fwy tebygol o fod mewn perygl o brofi cam-drin ariannol ac mae ymchwil yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o brofi cam-drin ariannol, gydag 1 o bob 5 o yn crybwyll eu bod wedi profi cam-drin ariannol o gymharu ag 1 o bob 7 o ddynion (Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, 2019). [Trosolwg o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Gallai ffactorau eraill sy'n cynyddu'r risg o gam-drin ariannol gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Nid yw'r unigolyn yn gallu rheoli eu cyllid eu hunain oherwydd diffyg gallu neu sgiliau rhifedd digonol.
- Mae'r unigolyn yn dibynnu ar unigolyn arall neu bobl eraill i reoli eu harian.
- Mae'r unigolyn yn dibynnu ar bobl eraill ar gyfer pob agwedd ar fywyd bob dydd, fel y rhai sy'n byw mewn gofal preswyl.
- Mae'n hysbys bod yr unigolyn wedi'u hynysu neu'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn y gymuned.
- Gallai unigolyn sydd wedi'u hynysu neu sy'n byw ar eu pen eu hunain fod mewn mwy o berygl o fod yn agored i bwysau ariannol e.e. gan werthwyr, cwmnïau benthyciadau, twyllwyr masnach neu alwyr ffug.
- Mae'r unigolyn o natur ymddiriedus ac yn hawdd eu darbwylllo i weithredu mewn ffordd nad yw er eu lles pennaf.
- Mae'r unigolyn yn agored i feithrin perthynas amhriodol o natur emosiynol.
- I bobl hŷn yn benodol, gallai asedau cynyddol posibl ynghyd â ffordd rad o fyw a diffyg ymwybyddiaeth o'r byd modern olygu eu bod yn fwy agored i niwed.
- Menywod hŷn sydd wedi ysgaru neu wahanu.
- Oedolyn sydd ag unigolyn nad yw'n perthyn iddynt yn byw yn yr un cartref.

5.2 Mae'n bwysig nodi, er bod diffyg galluedd yn aml yn ffactor, y gall oedolyn sydd â galluedd fod yn agored i gam-drin ariannol, hefyd. Hyd yn oed lle mae unigolyn sydd â galluedd yn credu eu bod wedi gwneud 'rhodd', nid yw hyn yn ei hatal rhag ei hystyried yn lladrad dan amgylchiadau penodol, er enghraifft mewn achosion o dwyll rhamant. Mae angen ystyried gorfodaeth a dylanwad gormodol, meithrin perthynas amhriodol o natur emosiynol ac ymddygiad ysglyfaethus, yn ogystal â rhesymoldeb y trafodyn.

5.3 Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Galluedd Gweithredol ac Atwrneiaeth

5.4 Rhaid i asesiadau galluedd ystyried natur gymhleth galluedd. Er enghraifft, mae adroddiad 46 y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y galluedd i wneud penderfyniad (galluedd i benderfynu) a'r galluedd i gyflawni'r penderfyniad (galluedd gweithredol). Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei wneud mewn polisi nac arweiniad cyfredol, ond mae'n arfer da ystyried neu asesu a all yr unigolyn weithredu ar benderfyniad y maent wedi'i wneud (galluedd gweithredol).

5.5 Pan na fydd gall unigolyn alluoedd, gallai atwrneiaeth fod yn briodol. Mae dau fath o atwrneiaeth arhosol, sef atwrneiaeth arhosol ar gyfer lles personol ac atwrneiaeth arhosol ar gyfer eiddo a materion. Am ragor o wybodaeth am atwrneiaeth, gweler [Atwrneiaeth Arhosol, Llys Gwarchod a Phenodi Dirprwy - Diogelu Gwent](#).

5.6 Dogfen gyfreithiol yw atwrneiaeth sy'n caniatáu i unigolyn roi awdurdod i unigolyn arall wneud penderfyniadau ar eu rhan. Dan atwrneiaeth, gall yr unigolyn a ddewiswyd wneud penderfyniadau sydd yr un mor ddilys â phenderfyniadau a wneir gan yr unigolyn. Dylai atwrnai fod yn rhywun y gellir ymddiried ynddynt, sy'n gymwys ac yn ddibynadwy. Cyn gweithredu dan atwrneiaeth arhosol, rhaid i atwrneiod wneud yn siŵr fod yr atwrneiaeth arhosol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a chymryd pob cam ymarferol a phriodol i helpu'r unigolyn i wneud penderfyniadau penodol drostyn nhw'u hunain. Rhaid i atwrneiod ddilyn egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol bob amser a gwneud penderfyniad er lles pennaf yr unigolyn.

5.7 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn amodi ar gyfer dau fath o atwrneiaeth arhosol, sef lles personol, ac eiddo a materion.

5.8 Dim ond oedolion 18 oed neu'n hŷn sy'n gallu gwneud atwrneiaeth arhosol os oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Dylai unigolyn feddwl yn ofalus cyn dewis rhywun i fod yn atwrnai iddynt. Dylai atwrnai fod yn rhywun y gellir ymddiried ynddynt, sy'n gymwys ac yn ddibynadwy.

5.9 Mae atwrneiod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth a gall yr unigolyn atal cam-drin trwy ddewis atwrnai y gellir ymddiried ynddynt. Mae arwyddion y gallai atwrnai fod yn cam-fanteisio ar yr unigolyn yn cynnwys atal perthnasau neu ffrindiau rhag cysylltu â'r unigolyn, newidiadau sydyn ac anesboniadwy i drefniadau byw,

peidio â chaniatáu i staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol weld yr unigolyn, biliau heb eu talu, agor cerdyn credyd ar gyfer yr unigolyn, trosglwyddo asedau i wlad arall neu wario arian mewn ffordd anarferol o wastrafflyd. Dylai unrhyw un sy'n drwgdybio bod rhywun yn cael eu cam-drin gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar unwaith. Mewn achosion o ddrwgdybio cam-drin corfforol neu rywiol, lladrad neu dwyll, dylech gysylltu â'r heddlu a thîm diogelu'r awdurdod lleol.

Plant a Phobl Ifanc

- 5.10 Er ei fod yn digwydd yn llai aml, gallai plant a phobl ifanc fod mewn perygl o gam-drin ariannol, hefyd. Gallai arwyddion gynnwys y canlynol:
- Cyfoeth cynyddol ac anesboniadwy.
 - Colli rheolaeth dros gyfrif banc.
 - Balans banc wedi cynyddu.
 - Trosiant uchel o arian trwy eu cyfrif banc – i mewn ac allan.
 - Defnydd mynych a chynyddol o ffôn symudol / dyfais.
 - Yn fwy cyfrinachgar am eu harian a'u gwariant.
 - Ffrindiau newydd neu siarad â phobl newydd ar-lein (Tik-Tok, Instagram).
 - Dillad, esgidiau a dyfeisiau newydd, drud nad oeddent yn gallu eu fforddio gynt.
- 5.11 Os ydych yn poeni y gallai plentyn neu unigolyn ifanc fod yn profi cam-drin ariannol, dylid cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer Plentyn trwy'r broses sydd wedi'i hamlinellu yma [Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent](#).
- 5.12 Mae rhagor o arweiniad i'w weld yma [Canllawiau Dyletswydd Plant i Adrodd a'r Trothwy Continwmm Cymorth Mawrth 2024](#).

6. Pwy allai gyflawni Cam-drin Ariannol?

- 6.1 Mae ymchwil yn dangos bod cam-drin ariannol yn cael ei gyflawni amlaf gan rywun y mae'r unigolyn yn eu hadnabod ac yn aml rhywun sydd mewn swyddogaeth ddibynadwy. Cafodd 66% o oedolion a oedd mewn perygl a oedd yn destun ymchwiliad adran 126 oherwydd cam-drin ariannol eu cam-drin gan rywun yr oeddent yn eu hadnabod, naill ai perthynas, ffrind neu rywun arall yr oeddent yn ymddiried ynddynt (GIG Digidol, 2018). Yn aml, gall cam-drin ariannol fod yn anodd ei ganfod, yn enwedig pan gaiff ei gyflawni gan unigolyn dibynadwy, gan efallai na fydd y dioddefwr yn cydnabod bod y cam-drin yn digwydd, neu efallai y byddant yn anfodlon datgelu oherwydd ymdeimlad o deyrngarwch i'r troseddwr.
- 6.2 Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gall pobl ddieithr gyflawni cam-drin ariannol hefyd, er enghraifft mewn achosion o sgamiau, twyll neu ddwyn hunaniaeth. Mae rhai enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd y gall grwpiau gwahanol gyflawni

cam-drin ariannol wedi'u hamlinellu isod, er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

6.3 Aelodau'r teulu a ffrindiau:

- Efallai bod ganddynt broblem o ran camddefnyddio sylweddau neu gamblo, neu anawsterau ariannol.
- Maent i fod i etifeddu arian ond yn teimlo bod ganddynt achos cyfiawn i'w gymryd cyn iddo fod yn ddyledus.
- Efallai bod ganddynt berthynas negyddol â'r oedolyn a bod ganddynt ymdeimlad o 'hawl'.
- Efallai bod ganddynt deimladau negyddol tuag at aelodau eraill o'r teulu a'u bod eisiau eu hatal rhag caffael neu etifeddu asedau'r oedolyn.
- Efallai eu bod yn gweithredu â chydysyniad yr oedolyn ond nid er eu lles pennaf. Efallai y bydd rhai teuluoedd o'r farn y dylai incwm aelodau unigol o'r teulu, gan gynnwys budd-daliadau ar gyfer oedolion anabl, gael eu cydgyfrannu i incwm y teulu.

6.4 Gallai gweithwyr proffesiynol:

- Godi gormod ar gyfer gwasanaethau neu gynhyrchion.
- Defnyddio arferion busnes twyllodrus neu annheg.
- Defnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu barch i ennill cydymffurfiaeth.
- Chwilio am waith, fel gweithwyr gofal neu gynorthwyyr personol ac yna ennill ymddiriedaeth yr oedolyn a chymryd rheolaeth dros eu cyllid yn anghyfreithlon.
- Dod o hyd i oedolion sydd wedi'u hynysu neu sy'n unig, neu gysylltu â'r rhai sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar, er mwyn eu cam-drin yn ariannol.
- Symud o un gymuned i'r llall er mwyn osgoi cael eu canfod.

6.5 Rhywun dieithr/anhysbys:

- Gweithgarwch twyllodrus gan unigolion nad yw'r oedolyn yn eu hadnabod.

6.6 Gall sgamiau gyrraedd mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Ffôn, llythyrau, negeseuon e-bost, negeseuon testun.
- Troseddau ar Stepen y Drws – codi prisiau gormodol; codi tâl am waith diangen; difrodi eiddo'n fwriadol er mwyn cael gwaith.
- Gadael gwaith heb ei orffen, gwaith o ansawdd gwael, honiadau ffug.
- Gallai hefyd gynnwys ymddygiad bygythiol ac ymosodol ar ran y troseddwyr neu elfen o gyfeillio neu feithrin perthynas amhriodol â'r dioddefwr er mwyn hwyluso'r troseddu neu erledigaeth fynych (er enghraifft twyll rhamant).

7.Nodi Cam-drin Ariannol

7.1 Fel y crybwyllwyd uchod, gall fod yn anodd iawn nodi cam-drin ariannol am nifer o resymau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Gallai'r oedolyn fod yn anfodlon siarad oherwydd ymdeimlad o gywilydd neu ofn canlyniadau, fel yr aelod o'r teulu yn tynnu cefnogaeth yn ôl neu'n mynd i helynt.

- Cred bod materion ariannol yn breifat ac y gallai codi pryderon ymddangos fel ymyrraeth.
- Efallai nad yw'r oedolyn yn cydnabod y cam-drin.
- Yn aml, gall ddechrau fel trafodyn cyfreithlon ond gwaethygu dros amser, sy'n ei gwneud hi'n anodd nodi pa bryd y mae wedi troi'n gam-drin.
- Gall fod yn anodd gweld a yw oedolyn yn cael eu gorfodi.
- Gall unigolion gael eu targedu oherwydd nodweddion bregus cydnabyddedig fel dementia, anabledd dysgu neu ynysigrwydd cymdeithasol, ac felly efallai na fyddant yn gwybod eu bod yn cael eu cam-drin yn ariannol.

7.2 Fodd bynnag, mae rhai arwyddion a all ddeffro ymarferwyr i'r posibilrwydd bod cam-drin ariannol yn digwydd. Ni ddylai'r rhestr hon gael ei hystyried yn un gynhwysfawr ac efallai na fydd un o'r rhain ar ei ben ei hun yn golygu bod cam-drin ariannol yn digwydd, o reidrwydd, ond mae'r rhestr isod yn cynnig rhai enghreifftiau o arwyddion.

- Arian yn cael ei dynnu o gyfrif banc unigolyn heb esboniad neu arian yn cael ei golli.
- Colli rheolaeth dros gardiau banc a/neu gyfrifon banc.
- Nid yw datganiadau banc yn cael eu derbyn mwyach neu maent yn diflannu.
- Methu mynd at gyfrifon banc neu wirio cyfrifon neu falans yn y banc.
- Unigolyn yn methu esbonio beth sy'n digwydd i'w hincwm eu hunain.
- Bancio ar-lein yn cael ei ychwanegu at gyfrifon nad oeddent yn ei ddefnyddio o'r blaen.
- Datganiadau banc sy'n dangos trafodion anarferol/tynnu arian parod/trosglwyddiadau/pryniannau (e.e. Amazon, gamblo)
- Tynnu arian drwy sieciau i fusnesau/pobl anhysbys.
- Balans yn y banc yn lleihau.
- Oedolyn nad ydynt yn cael eu budd-daliadau neu y mae eu budd-daliadau neu bensiynau'n cael eu dargyfeirio.
- Prinder arian anesboniadwy, er gwaethaf incwm digonol neu'n syth ar ôl y diwrnod talu ar gyfer budd-daliadau.
- Biliau heb eu talu neu fethu talu biliau'n ddirybudd.
- Diffyg gwres, dillad, bwyd neu hanfodion eraill.
- Ôl-ddyledion rhent a hysbysiadau troi allan.
- Newid mewn amodau byw neu wahaniaeth rhwng asedau ac amodau byw boddhaol.
- Diffyg eiddo neu wasanaethau y gall yr unigolyn eu fforddio'n amlwg.
- Mae taliadau cyfraniad yr oedolyn tuag at wasanaethau yn dod i ben yn ddirybudd.
- Unigolyn yn cymryd benthyciadau neu gredyd mewn amgylchiadau sy'n peri pryder, fel oedran yr unigolyn sy'n cymryd y benthyciad a'r rheswm honedig dros y benthyciad.

- Ychwanegu llofnodwyr awdurdodedig at gerdyn llofnod oedolyn neu roddwr yn ddiweddar.
- Amharodwydd y teulu, ffrindiau neu'r unigolyn sy'n rheoli cyllid i dalu am ddillad neu ddodrefn newydd.
- Prynu eitemau nad ydynt yn briodol ar gyfer yr unigolyn.
- Gwelliannau neu atgyweiriadau i'r cartref nad ydynt yn gydnaws â ffordd o fyw'r unigolyn neu sy'n 'poeni' yr unigolyn neu staff.
- Eiddo neu bethau gwerthfawr sy'n mynd ar goll e.e. clociau, addurniadau, gemwaith.
- Colli neu gamleoli dogfennau ariannol yn anesboniadwy.
- Pwysau gan aelodau'r teulu a phobl eraill i drosglwyddo asedau neu newid ewyllys.
- Newidiadau sydyn neu annisgwyl i ewyllys, gweithredoedd eiddo, gweithredoedd tŷ neu ddogfennau ariannol eraill.
- Gostyngiad sylweddol mewn cyfalaf, yn enwedig ar ôl newid mewn amgylchiadau e.e. gwerthu eiddo.
- Mae'r teulu neu bobl eraill yn dangos diddordeb anarferol yn asedau'r unigolyn.
- Cael atwrneiaeth neu atwrneiaeth arhosol (LPA) pan nad oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol mwyach.
- Mae'r unigolyn/unigolion sy'n rheoli'r cyllid yn lleihau neu'n rhoi'r gorau i ymweld neu mae'r unigolyn yn ofidus ar ôl iddynt ymweld â nhw.
- Ynysigrwydd a chilio'n ôl oddi wrth ffrindiau a theulu.
- Mae'r unigolyn a benodwyd i reoli materion ariannol yn osgoi neu'n anghydweithredol.
- Y gofalwr yn gofyn cwestiynau ariannol yn unig i'r gweithiwr yn hytrach na gofyn cwestiynau am ofal.
- Diffyg cofnodion mewn cartref gofal neu lety byw â chymorth, fel taflenni amser, anfonebau, derbynebau ac ati.
- Diffyg cyfrifon ariannol clir gan gartref neu wasanaeth gofal.
- Methu darparu derbynebau ar gyfer siopa neu drafodion ariannol eraill a wnaed ar ran yr unigolyn.
- Arwyddion o galedi ariannol mewn achosion lle mae materion ariannol yr oedolyn sydd mewn perygl yn cael eu rheoli gan ddirprwy a benodwyd gan y llys, twrnai neu atwrneiaeth arhosol.
- Llawer iawn o bost sothach.

Twyll rhamant

- 7.3 Twyll rhamant yw lle mae unigolyn yn cael eu twyllo i wneud taliadau i rywun y maent wedi cyfarfod â nhw ar-lein, fel trwy gyfryngau cymdeithasol neu apiau dêtio. Mae twyllwyr yn creu proffiliau ffug ac yna'n eu defnyddio i feithrin perthynas â'r dioddefwr. Ar rai achlysuron, efallai y byddant yn cyfarfod â'r

dioddefwr wyneb-yn-wyneb, hefyd. Mae'r twyllwr yn meithrin ymddiriedaeth ac mae'r dioddefwr yn cael eu twyllo i feddwl eu bod mewn perthynas ddilys, yna maent yn dechrau gofyn am arian neu dalebau. Er enghraifft, efallai y byddant yn honni bod angen arian arnynt ar gyfer sefyllfa frys neu i dalu am gostau teithio i ymweld â'r unigolyn os ydynt dramor, gan addo'n aml i dalu'r arian yn ôl wedi hynny. Dyma rai o'r pethau i gadw golwg amdanynt:-

- Mwy o ddefnydd o ffonau symudol neu ddyfeisiau neu eu gwirio'n aml.
- Negeseuon cyson yn cael eu derbyn a'u hanfon, yn enwedig os oes cyfrinachedd ynghylch pwy sy'n eu hanfon.
- Maent yn dweud wrthyh eu bod wedi cyfarfod â rhywun ar-lein sy'n honni bod ganddynt deimladau cryf tuag atynt, er eu bod ond wedi'u hadnabod am gyfnod byr.
- Mae'r unigolyn wedi symud y sgwrs o'r wefan dêtio neu gyfryngau cymdeithasol i rywbeth mwy personol, fel negeseuon testun neu e-bost.
- Gwallau sillafu a gramadegol.
- Nid ydynt erioed wedi cyfarfod â'r unigolyn nac wedi siarad â nhw dros y ffôn ac maent wedi gwneud honiadau, fel nad yw eu camera'n gweithio, fel esgus.
- Gofynnwyd iddynt anfon arian neu brynu cardiau rhodd neu anrhegion pan nad ydynt erioed wedi cyfarfod â nhw.
- Apiau newydd ar eu ffôn symudol / dyfais – unrhyw beth sy'n ymwneud â chyllid neu gyfnewid arian 'crypto'.
- Agor cyfrifon banc newydd ar-lein neu gael cardiau credyd/benthyciadau heb reswm amlwg.
- Mwy o wario trwy drosglwyddiadau banc neu brynu cardiau rhodd – cadwch olwg am symiau mawr yn cael eu gwario mewn archfarchnadoedd – gallai hyn ddynodi bod cardiau rhodd yn cael eu prynu.
- Tynnu symiau mawr o bensiwn/rhyddhau ecwiti o eiddo/benthyca anarferol.
- Gallai rhywun sy'n dioddef rhamant twyll ddod yn gyfrinachgar. Gallant fod yn elyniaethus neu'n flin a thynnu'n ôl o sgwrs pan fyddwch yn gofyn unrhyw gwestiynau am eu partner.

7.4 Os ydych yn credu bod rhywun yn dioddef twyll rhamant, gallwch roi gwybod i Action Fraud amdano ar 0300 123 2040 neu drwy action.fraud.police.uk. Os oes arian wedi'i drosglwyddo neu os yw manylion banc wedi'u perygl, dylech hefyd gysylltu â'r banc ar unwaith.

7.5 Fel y crybwyllwyd uchod, gall fod yn anodd canfod cam-drin ariannol / economaidd ac efallai na fydd yr unigolyn eu hunain yn cydnabod eu pob yn profi cam-drin. Efallai na fydd y dangosyddion uchod yn dangos bod cam-drin yn bresennol bob tro, yn enwedig ar eu pennau eu hunain, ond dylent rybuddio ymarferwyr o'r posibilrwydd o gam-drin ariannol / economaidd a'r angen i

ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol ac archwilio'r maes hwn gyda'r unigolyn dan sylw. Am ragor o wybodaeth am chwilfrydedd proffesiynol, gweler: [Briff 7 munud ar Chwifrydedd Proffesiynol](#).

- 7.6 Gall cam-drin ariannol fod yn bwnc sensitif i fynd i'r afael ag ef. Weithiau, mae'n cael ei achosi i oedolion gan y bobl sydd agosaf atynt, gan gynnwys aelodau'r teulu, gofalwyr neu ffrindiau. Gofynnwch gwestiynau sy'n ysgogi sgwrs ac yn helpu i nodi'r cam-drin.
- Er enghraifft: Ydych chi erioed wedi teimlo dan bwysau i roi benthyg arian?
 - Ydych chi erioed wedi rhannu eich gwybodaeth bancio bersonol pan nad oeddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny?
- 7.7 Cofiwch fod yn sensitif wrth ofyn cwestiynau a bod yn ymwybodol efallai na fydd oedolyn yn fodlon trafod y pynciau hyn, yn enwedig os yw'r sefyllfa'n ymwneud â theulu. Canolbwyntiwch ar ymddygiad, gan fod hyn yn arwydd eich bod chi yno i gefnogi'r unigolyn ac nid i farnu eu perthnasoedd. Ffordd wych o wneud hyn yw gofyn i'r oedolyn sut mae ymddygiad penodol yn gwneud iddynt deimlo.

8. Proses ar gyfer ymateb i Gam-drin Ariannol tybiedig

- 8.1 Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer cam-drin ariannol ac economaidd, ynghyd ag ymateb diogelu dilynol, ond nid yw hyn yn wir bob tro. Mae canllawiau pellach ynghylch trothwyon ar gael yma: [Rhoi gwybod neu beidio â rhoi gwybod - Canllawiau diogelu oedolion](#). Gall y ddogfen hon gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a oedd angen Dyletswydd i Adrodd.
- 8.2 Mae ffurflen Dyletswydd i Adrodd Oedolion Gwent a'r broses ar gyfer ei chyflwyno i'w gweld yma: [Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent](#).

Cael caniatâd i gynnal ymholiad

- 8.3 Mae gan bawb hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau am eu bywyd eu hunain a, lle bo'n ymarferol, dylid gofyn am ganiatâd yr oedolyn cyn gweithredu. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle nad oes modd cael caniatâd gan nad oes gan yr oedolyn y galluedd, ond mae cynnal ymholiad er eu lles pennaf. P'un a oes gan yr oedolyn y galluoedd i roi caniatâd ai peidio, efallai y bydd angen cymryd camau gweithredu:
- Os oes pobl eraill mewn perygl, neu os cânt eu rhoi mewn perygl, os na chaiff unrhyw beth ei wneud.
 - Os yw er budd y cyhoedd i gymryd camau gweithredu oherwydd bod trosedd wedi digwydd.

8.4 Gallai atgyfeiriad i wasanaeth eiriolaeth fod yn ddefnyddiol hefyd o ran caniatáu i ddymuniadau a theimladau'r oedolyn gael eu clywed.

8.5 Mae rhai ffactorau i'w hystyried wrth gychwyn ymholiad adran 126 mewn perthynas â cham-drin ariannol ac/neu economaidd yn cynnwys:

- Nodi'r unigolyn neu'n sefydliad sy'n gyfrifol am y cam-drin ariannol a galluogi'r oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol i gael datrysiad ac adferiad.
- Ystyried lles ac atal ochr yn ochr ag unrhyw gamau ymholi.
- Cydweithio â'r oedolyn i nodi a chanolbwyntio ar eu canlyniadau dymunol.
- Ystyried a oes angen ymchwiliad gan yr heddlu a chytuno ar sut i weithio gyda'r unigolyn ochr yn ochr ag unrhyw ymchwiliad tebyg.
- Ystyried ehangder yr atebion sydd ar gael i'r oedolyn sy'n mewn perygl o gam-drin ariannol.
- Cyfarfod neu drafodaeth wedi'i chynllunio'n dda sy'n cynnwys ac yn defnyddio sgiliau partneriaid cyn gynted â phosibl.

Yr 'Awr Aur' – Pwysigrwydd Gweithredu'n Brydlon

8.6 Ar ôl datgelu neu ddarganfod cam-drin ariannol/economaidd, mae nifer o gamau gweithredu y gall ymarferwyr eu cymryd a allai helpu i leihau effaith y cam-drin. Gall hyn gynnwys:

- Rhoi gwybod i fanc yr unigolyn
- Canslo cardiau
- Newid cyfrineiriau
- Rhoi gwybod i'r heddlu neu drwy Action Fraud

8.7 Gall cymryd camau ar unwaith helpu i leihau effaith cam-drin ariannol yn sylweddol a chaniatáu i unigolyn gael cymorth perthnasol mewn modd amserol.

Ceisio lawndal Cyfreithiol

8.8 **Y llysoedd troseddol:**

Os cyflawnwyd trosedd e.e. lladrad neu dwyll, efallai y bydd yr oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol am ddwyn cyhuddiad troseddol yr erbyn yr unigolyn y credir eu bod yn gyfrifol. Gall dymwyl y berthynas rhwng yr oedolyn a'r sawl sy'n eu cam-drin ei gwneud hi'n anodd i'r oedolyn eu hunain benderfynu er erlyniad troseddol, hyd yn oed pan fydd symiau mawr o arian wedi'u dwyn oddi arnynt.

8.9 **Y llysoedd sifil:**

Pan nad oes trosedd wedi'i gyflawni, efallai y bydd yn bosibl i'r oedolyn sy'n destun cam-drin ariannol gael cymorth trwy gyfraith sifil. Byddai hyn yn wir lle

mae cam-drin ariannol yn digwydd o ganlyniad i ddylanwad gormodol neu orfodaeth.

8.10 Mae **dylanwad gormodol** yn digwydd pan fydd dymuniadau oedolyn ynghylch rhodd neu gymynrodd yn cael eu goruwchreoli o ganlyniad i orfodaeth neu bwysau gormodol gan rywun arall. Mae **gorfodaeth** yn ymwneud ag oedolyn yn mynd i gytundeb o ganlyniad i fygythiadau. Lle caiff ei sefydlu bod gorfodaeth neu ddylanwad gormodol wedi'i arfer, gall unrhyw gontract y mae'r oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol wedi ymrwymo iddo gael ei roi o'r neilltu a rhaid iddynt gymryd camau i ddirymu'r contract. Lle mae gorfodaeth wedi digwydd, gallai fod yn bosibl cael iawndal hefyd; nid yw iawndal ar gael gyda dylanwad gormodol.

8.11 Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Os yw'r cam-drin yn cael ei gyflawni gan atwrnai neu ddirprwy a bod gan y rhoddwr y galluedd o hyd, gall ef / hi ddirymu'r atwrneiaeth arhosol (LPA) drwy Weithred Ddirymu. Dylid rhoi gwybod i'r atwrnai a, lle mae atwrneiaeth arhosol wedi'i chofrestru, dylid rhoi gwybod i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gall awdurdodau lleol wneud sylwadau i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os oes credir yn rhesymol nad yw atwrnai neu ddirprwy yn gweithredu er lles pennaf yr oedolyn.

8.12 Y Llys Gwarchod

Pan nad oes gan yr oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol alluedd, mae gan y Llys Gwarchod bwerau eang i ymdrin â chanlyniadau cam-drin ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwneud gorchymyn sy'n gwahardd unigolyn a enwir rhag cysylltu â'r oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol.
- Gwneud gorchymyn sy'n galluogi unigolyn arall i ddwyn achos ar ran yr oedolyn sy'n profi cam-drin ariannol, er enghraifft i gael iawndal yn y llys sifil. Gallai hyn gynnwys honiadau o dwyll, gorfodaeth, dylanwad gormodol, diffyg galluedd a thorri ymddiriedaeth.

8.13 Penodi dirprwy

- Yn ogystal, gall y Llys roi rhoddion neu ewyllysiau o'r neilltu ar y sail nad oedd gan yr unigolyn alluedd ar yr adeg berthnasol.

8.14 Yr Uchel Lys

Gall yr Uchel Lys:

- Wneud gwaharddebau rhewi i atal arian neu eiddo rhag cael ei waredu.
- Gwneud gorchmynion chwilio i ganiatáu mynediad i gartref neu weithle'r unigolyn yr honnir eu bod yn gyfrifol er mwyn chwilio am ddogfennau.

- Ymyrryd a defnyddio awdurdodaeth gynhenid pan fydd gan oedolyn alluedd ond bod angen iddynt gael eu hamddiffyn.

8.15 Gellir cael gwaharddebau hefyd i atal yr unigolyn yr honnir eu bod yn gyfrifol rhag gadael y wlad.

8.16 Gall unigolyn sy'n gweithredu fel 'cyfaill ymglyfreitha' (h.y. yn cynrychioli oedolyn sydd â phroblemau iechyd meddwl) hefyd wneud cais i'r Uchel Lys i adennill arian.

8.17 Yr Ombwdsmon Cyfreithiol

Dylai cwynion am gyfreithiwr, yn y lle cyntaf, gael eu cyfeirio at yr ymarferydd neu'r cwmni cyfreithiol dan sylw, yn ysgrifenedig. Os na fydd yr ymarferydd yn ymdrin â'r gŵyn yn foddhaol, dylid cyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Cyfreithiol. Mae'r Ombwdsmon Cyfreithiol yn wasanaeth annibynnol, am ddim sydd â phwerau ffurfiol i ddatrys cwynion am gyfreithwyr.

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon Cyfreithiol ar 0330 555 0333 neu drwy enquiries@legalombudsman.org.uk

8.19 Y Protocol Bancio

Mae'r Protocol Bancio yn fenter ledled y DU y gall staff cangen ei defnyddio i roi gwybod i'r heddlu am sgamiau tybiedig. Fe'i lanswyd yn 2017 gan UK Finance, Safonau Masnach Cenedlaethol a heddluoedd lleol.

8.20 Os bydd cwsmer yn mynd i fanc/swyddfa bost ac yn gofyn am dynnu arian parod neu drosglwyddo arian, a bod hynny'n cael ei asesu'n rhywbeth anarferol neu'n groes i'w cymeriad, bydd staff hyfforddedig yn gofyn cwestiynau i ganfod a yw'r cwsmer yn dioddef twyll o bosibl (a ph'un a yw'r sawl a ddrwgdybir yn y cyffiniau). Os felly, byddant yn ffonio'r heddlu ar 999 gan ddyfynnu "Protocol Bancio" a bydd uned yn cael ei hanfon ac yn cynnal ymchwiliad cychwynnol.

8.21 Strategaethau i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ariannol

Gall fod anawsterau sylweddol wrth ymchwilio i gam-drin ariannol, ei brofi a'i unioni ar ôl iddi ddigwydd. Felly, y ffordd fwyaf effeithiol i amddiffyn pobl rhag cam-drin ariannol yw trwy ymyriadau ataliol.

Mae angen i atal ddigwydd yng nghyd-destun cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag unigolion wedi'u grymuso i wneud dewisiadau a'u cynorthwyo i reoli risgiau. Gweler [Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg](#).

Dylid ystyried y canlynol mewn achosion unigol:

- Gellid cynnwys y risg o gam-fanteisio posibl a sut i liniaru hyn yng nghynllun cymorth yr unigolyn, a'i rhanni gyda darparwyr gofal.
- Defnyddio eiriolaeth.
- Cyngori'r oedolyn sydd mewn perygl am ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol e.e. Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, Age UK, Cyngor ar Bopeth.
- Gweithio gydag asiantaethau partner sy'n gysylltiedig â'r unigolyn i ddatblygu cynlluniau rheoli risg.

8.22 Safonau Masnach

Gall Safonau Masnach helpu i amddiffyn rhag cam-drin ariannol trwy:

- Ddarparu gwybodaeth a chynghor ar sut gall yr oedolyn sydd mewn perygl amddiffyn eu hunain rhag cael eu twyllo yn gysylltiedig â throseddau ar stepen y drws, twyllwyr masnach, benthydwyr arian didrwydded a sgamiau marchnata torfol e.e. sgamiau loteri, post neu'r rhyngwyd.
- Gall Safonau Masnach gefnogi dioddefwyr sgamiau hysbys a gellir ymyrryd i gefnogi'r unigolyn, yn ôl yr angen.

8.23 Polisïau a gweithdrefnau

- Dylai cartrefi gofal preswyl fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â chyllid a phethau gwerthfawr unigolion a chadw cofnodion priodol y gellir eu harchwilio.
- Dylai darparwyr gofal cartref fod â threfniadau ffurfiol ar waith i staff gofal cartref ymgymryd â chyfrifoldebau ariannol.
- Dylai llety byw â chymorth fod â systemau ar waith i gefnogi unigolion i reoli eu cyllid, heb roi staff mewn sefyllfa sy'n gwrthdaro â'u cyflogwr.
- Dylai cofnodion archwiliadwy clir fodoli i ddangos bod yr unigolyn wedi cael anfoneb yn unol â'r gofal a ddarparwyd.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016:

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted>

Honiadau diogelu

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted>

Twyll trwy gamddefnyddio swydd

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/35/contents>

8.24 Taliadau uniongyrchol

Mae nifer o ffyrdd y gellir lleihau'r risg o gamddefnyddio taliadau uniongyrchol trwy: y gallu i reoli'r taliad uniongyrchol.

- Anogwch dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol i gael eu Taliad Uniongyrchol trwy gerdyn rhagdaledig.
- Byddwch yn glir na ddylai darparwyr a chynorthwywyr personol reoli unrhyw gyllid sy'n gysylltiedig â'r Taliad Uniongyrchol.
- Cynhaliwch wiriad DBS ar y trydydd parti.

- Byddwch yn benodol yn y Cynllun Gofal a Chymorth ynghylch yr hyn y gellir gwario'r Taliad Uniongyrchol arno.
- Sicrhewch fod derbynnydd y Taliad Uniongyrchol neu'r trydydd parti yn deall yr angen i gadw cofnodion o holl wariant y Taliad Uniongyrchol.

9. Enghreifftiau o Arfer Da

9.1 Gall sefydliadau ac ymarferwyr gymryd camau sy'n gallu helpu i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o gam-drin ariannol/economaidd neu sy'n profi cam-drin tebyg.

9.2 Cysylltu â gwasanaethau ariannol

Lansiwyd y Broses Hysbysu am Ddiodefwyr Bregus yn 2021 i hybu cyfathrebu gwell rhwng banciau a'r heddlu ac mae'n caniatáu i'r heddlu hysbysu darparwyr gwasanaethau ariannol am nodweddion bregus cwsmeriaid a allai olygu eu bod yn agored i dwyll. Mae Heddlu Gwent wedi cofrestru â'r broses hon gyda banciau a gwasanaethau ariannol sy'n cymryd rhan. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2024, nodwyd 42% o gwsmeriaid bregus lle nad oedd y sefydliad ariannol yn gwybod am y bregusrwydd gynt, ac nid yw 18% o'r holl gwsmeriaid a atgyfeiriwyd gan yr heddlu wedi dioddef twyll hyd yn hyn, sy'n dangos manteision y dull hwn.

Gall banciau roi cyfyngiadau ar waith neu rwystro cardiau rhag cael eu defnyddio, gosod terfynau gwario a mesurau eraill i leihau'r risg o gam-drin ariannol, felly gall fod yn ddefnyddiol cysylltu â sefydliadau ariannol pan fydd amheuaeth o gam-drin ariannol/economaidd. Mae'r Protocol Bancio, a roddwyd ar waith yn 2016, hefyd yn caniatáu i fanciau ofyn am ymateb ar unwaith gan yr heddlu i fanc os disgwylir i rywun fod yn rhan o sgâm.

9.3 Gwaith amlasiantaeth

Mae dull amlasiantaeth yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu ac i ffynonellau cymorth perthnasol gael eu rhoi ar waith. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Cynnwys Heddlu Gwent a thrafod gyda'u swyddog diogelu ariannol.
- Cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a chymorth teilwredig sydd ar gael gan eu Tîm Cymorth Cwsmeriaid Uwch.
- Cysylltu â darparwyr tai i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol os gallai unigolyn gael trafferth wrth dalu eu rhent a/neu gyfleustodau.
- Rhoi gwybod i Safonau Masnach os drwgdybir bod sgamiau/twyll yn cael eu cyflawni gan 'weithwyr proffesiynol'.
- Cysylltu â chydweithwyr ieched i ganfod a yw ffactorau ieched yn cynyddu pa mor agored y mae unigolyn i gael eu cam-drin a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw bryderon posibl.
- Ceisio cyngor gan Cyngor ar Bopeth.

9.4 Dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn elfen bwysig o waith diogelu. Yr egwyddorion allweddol yw cefnogi a grymuso'r oedolyn i wneud dewisiadau a bod â rheolaeth dros eu bywyd eu hunain. Mae'n ymwneud ag ystyried posibl yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain a gweithio ochr yn ochr â nhw i nodi'r canlyniadau sydd eu heisiau arnynt.

Bydd dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn cefnogi sgwrs ar y cyd am y risg rhwng ymarferydd ac oedolyn. Gallai sgwrs sy'n seiliedig ar gryfderau ganolbwyntio ar y canlynol:

- Beth mae lles yn ei olygu i'r oedolyn?
- Beth sy'n bwysig iddynt wrth gefnogi a lles a beth nad yw'n bwysig?
- Pa atebion y maent wedi rhoi cynnig arnynt?
- Beth oedd yn gweithio neu ddim yn gweithio?
- Beth sy'n eu rhwystro rhag gallu defnyddio eu cryfderau a gwneud newidiadau yn eu bywyd?
- Pa gymhorthion ac adnoddau sydd ar gael iddynt eu defnyddio?

Gall y sgysiau hyn ddechrau llunio cynllun a fydd yn amddiffyn yr oedolyn wrth wella eu llesiant.

9.5 Eiriolaeth

Mae'n bwysig bod lleisiau'r rhai sydd mewn perygl o gam-drin ariannol, neu sy'n profi cam-drin ariannol, yn cael eu clywed, Felly, efallai y bydd atgyfeiriad i wasanaeth eiriolaeth yn briodol i gefnogi'r broses hon. Mae eiriolaeth ar gael gan wasanaethau fel:

- Age Cymru [Age Cymru Gwent | Gwasanaeth Eiriolaeth](#) and
- Dewis [Eiriolaeth - Iechyd Meddwl Gwent | CANOLFAN BYW'N ANNIBYNNOL DEWIS](#).
- Gwent Access to Advocacy [Gwasanaeth Eiriolaeth Gwent – Hafan](#)

9.6 Swyddog Diogelu rhag Cam-drin Ariannol Heddlu Gwent

Mae gan Heddlu Gwent Swyddog Diogelu rhag Cam-drin Ariannol (FASO) y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Cynnal asesiadau wythnosol o ddioddefwyr twyll i benderfynu ar eu bregusrwydd a mesurau diogelu priodol, gan ddefnyddio data dioddefwyr a ddarperir gan y Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll (NFIB – Heddlu Dinas Llundain).
- Blaenoriaethu cymorth i oedolion sydd â risg uchel o erledigaeth ailadroddus neu golled ariannol sylweddol.

- Cydweithio â thimau mewnol a phartneriaid allanol fel gwasanaethau cymdeithasol, banciau ac elusennau i roi ymyriadau diogelu effeithiol ar waith.
- Darparu cyngor a diogelwch teilwredig i ddioddefwyr i helpu i atal rhagor o niwed ariannol.
- Rhoi cyflwyniadau ymwybyddiaeth o dwyll ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys mentrau ar y cyd â staff Tarian Protect.
- Dadansoddi data'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyl i nodi patrymau twyll a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau ac arferion sy'n gwella diogelu ariannol ac atal twyll.

Gall cysylltu â'r Swyddog Diogelu rhag Cam-drin Ariannol gyfrannu at ddiogelu, atal ac amddiffyn dioddefwyr yn effeithiol.

Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu rhag Cam-drin Ariannol trwy fraudtriage@gwent.police.uk

10. Adnoddau

- **Gellir ceisio hyfforddiant o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys:**
 - [Croeso i Ddiogelu Gwent - Diogelu Gwent](#)
 - [Cyngor ar Bopeth](#)
 - [Llyfryn Hyfforddiant 25-26 - Haf.pdf](#)
- **Cofrestru Amddiffynnol Cifas** – Ar gyfer y rhai y mae eu hunaniaeth mewn mwy o berygl, gall Cifas roi baner rhybuddio yn erbyn eu hwn a'u manylion personol eraill yn ein Cronfa Ddata Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn rhoi gwybod i unrhyw sefydliad sy'n defnyddio data Cifas i roi sylw arbennig pan fydd eu manylion yn cael eu defnyddio i wneud cais am eu cynhyrchion neu wasanaethau. Gan wybod eu bod mewn perygl, byddant yn cynnal gwiriadau ychwanegol i wneud yn siŵr mai nhw sy'n gwneud y cais mewn gwirionedd, yn hytrach na thwyllwr sy'n defnyddio eu manylion.

[Cofrestru Amddiffynnol | Gwasanaeth Diogelu Hunaniaeth | Cifas](#)

- **Action Fraud** – y ganolfan genedlaethol ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddau

Action Fraud

0300 123 2040

- **Age Cymru – Sgamiau a thwyll** – cyngor ac arweiniad i godi ymwybyddiaeth o wahanol fathau o sgamiau a thwyll.

Sgamiau a thwyll | Materion Ariannol | Age Cymru

- **Pecyn cymorth sgamiau** – ar gyfer ymarferwyr sy'n cefnogi'r rhai sydd wedi dioddef twyll/sgamiau.

Providing support to fraud and scam victims

- **Sut i ddod yn Gyfaill/Marsial/Hyrwyddwr Sgamiau** – Mae Friends Against Scams yn fenter y Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol, sydd â'r nod o ddiogelu ac atal pobl rhag dioddef sgamiau trwy eu grymuso i sefyll yn erbyn sgamiau.

Friends Against Scams - Help Others

- **E-ddysgu Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol** – Mae'r adnodd hwn wedi'i lunio i helpu gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr a fydd yn rhyngweithio â dioddefwyr sgamiau.

Friends Against Scams - Practitioner Welcome

- **Cyngor Sgamiau Cyngor ar Bopeth** – arwyddion y gallai rhywbeth fod yn sgâm, beth i'w wneud os ydych wedi cael eich sgamio, rhoi gwybod am sgamiau, manteisio ar gymorth emosiynol os ydych wedi cael eich sgamio.

Sgamiau - Cyngor ar Bopeth

- **Money Advice Plus** – cyngor cyfrinachol am ddim i helpu pobl i reoli eu harian yn effeithiol.

Your trusted source for free money advice and support - Money Advice Plus

- **Surviving Economic Abuse** - Cymorth i'r rhai sy'n profi/wedi profi cam-drin economaidd gan bartner presennol neu gynbartner.

Surviving Economic Abuse: Transforming responses to economic abuse

0808 196 8845 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm).

NODWYD PRYDER

Mae gan yr ymarferydd reswm i amau cam-drin ariannol. Mae arwyddion yn cynnwys:

datgeliad gan unigolyn/perthynas/ffrind, mae arwyddion yn bresennol fel tynnu arian o gyfrifon banc heb esboniad, diffyg mynediad at gyfrifon banc, methu talu biliau/fforddio hanfodion, newid mewn amodau byw, dargyfeirio budd-daliadau / pensiynau, cael benthyciadau/cardiau credyd sy'n peri pryder, colli dogfennau ariannol, newid ewyllysiau, eiddo neu bethau gwerthfawr yn mynd ar goll.



SIARADWCH Â'R OEDOLYN (OS YW'N DDIOGEL AC YN BRIODOL)

Defnyddiwch chwylfrydedd proffesiynol, byddwch yn sensitif; canolbwyntiwch ar ymddygiad ac effaith; archwiliwch deimladau; ystyriwch eiriolaeth, galluedd meddyliol a swyddogaeth weithredol.

Anogwyr enghreifftiol: 'Ydych chi wedi teimlo dan bwysau i roi benthyc arian?', 'Ydych chi'n teimlo bod gennych chi reolaeth dros eich cyllid?'



CAMAU GWEITHREDU DI-OED YR 'AWR AUR'

Os ydych chi'n poeni bod risg uniongyrchol o gam-drin ariannol, mae'n hollbwysig eich bod yn gweithredu'n gyflym i leihau'r effaith.

Dylai ymarferwyr: hysbysu'r banc/Protocol Bancio; canslo cardiau; newid cyfrineiriau; cysylltu â'r heddlu neu Action Fraud; cadw tystiolaeth.



PENDERFYNIAD TROTHWY – A OES ANGEN DYLETSWYDD I ADRODD?

Defnyddiwch farn broffesiynol wedi'i chefnogi gan y ddogfen trothwy oedolion Canllawiau Diogelu Oedolion - Rhoi gwybod neu beidio â rhoi gwybod a thrafodwch â'r Unigolyn Diogelu Dynodedig a/neu wasanaethau oedolion am ragor o gyngor, yn ôl yr angen.

Ceisiwch ganiatâd i rannu gwybodaeth, lle bynnag y bo modd; fodd bynnag, gall ymarferwyr rannu gwybodaeth heb ganiatâd os yw'r unigolyn neu bobl eraill mewn perygl, os yw trosedd wedi digwydd neu os yw o fudd i'r cyhoedd.

Cyflwynwch Ddyletswydd i Adrodd yn ôl yr angen: Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent

NI FODLONWYD Y TROTHWY

Ystyriwch opsiynau eraill fel eiriolaeth, cymorth gan wasanaethau e.e. Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau VAWDASV.

YMCHWILIAD ADRAN 126

Os bydd y trothwy diogelu yn cael ei bodloni, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal Ymchwiliad Adran 126 i sicrhau dull cydlynol, amlasiantaeth.

Rhoddir ystyriaeth i ddiogelu'r unigolyn, atal niwed pellach, cefnogi eu hadferiad a chyflawni'r canlyniadau dymunol. Ystyriwch gynnwys yr heddlu, yn ôl yr angen.

DEWISIADAU CYFREITHIOL AC AMDDIFFYNNOL

Ymchwiliad yr heddlu; Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (camddefnyddio Atwrneiaeth Arhosol); y Llys Gwarchod (os nad oes galluedd); rhwymedïau sifil (dylanwad amhriodol/gorfodaeth); gwaharddebau'r Uchel Lys/amddiffyn asedau.

CYMORTH AC ATAL PARHAUS

Cynllunio sy'n seiliedig ar gryfderau; eiriolaeth a chymorth emosiynol; cyngor ariannol; mesurau diogelwch banciau/cardiau rhagdaledig; monitro amlasiantaeth ar gyfer erledigaeth ailadroddus.

CYSYLLTIADAU CYFLYM

Yr Heddlu: 999/101 Action Fraud: 0300 123 2040

Swyddog Diogelu rhag Cam-drin Ariannol Heddlu Gwent: fraudtriage@gwent.police.uk

Gwasanaethau oedolion awdurdodau lleol Gwent:

Blaenau Gwent

Ffôn: 01495 315700

E-bost: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

Caerffili

Ffôn: 0808 100 2500

E-bost: GCChOedolion@caerffili.gov.uk

Torfaen

Ffôn: 01495 762200

E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Casnewydd

Ffôn: 01633 656656

E-bost: firstcontact.adults@newport.gov.uk

Sir Fynwy

Ffôn: 01873 735492

E-bost: MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk